YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1895. [RHIF 96.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

GWERTH CYMMERIAD DA.

GAN MR. D. DELTA EVANS, LLUNDAIN,

I.

CYMMERIAD.

"Oft have I heard, and now believe it true,
Whom man delights in, God delights in too."—*Pons Capduil.*

"Cyfiawnder a ddyrchafa genedl:
Ond cywilydd pobloedd yw pechod."—*Solomon.*

CYMMERIAD, yn ystyr puraf, dyfnaf, a mwyaf gwreiddiol y gair, ydyw cyd-gorfforiad rhinweddau a beiau dynolryw mewn un bôd gwahanfodol. Yn ei ystyr diweddaraf a mwyaf llygredig, yr hyn a olygir yn gyffredin wrth y gair ydyw yr argraphiad a wneir ar feddwl y wladwriaeth gan y geiriau a'r gweithredoedd ag ydynt yn tarddu o'r rhinweddau a'r beiau hyny.* Y mae y syniad cyntaf yn golygu yr hyn a ddylai dyn fod; yr ail, yr hyn y tybir ei fod—ffrwyth neu ganlyniad y cyntaf; ond pan y cymmharir y ddau, ceir fod y naill yn fynych yn ymddangos yn wrthwynebol i'r llall. Y

* "Now, character is not a massive unit; it is a fabric rather. It is an artificial whole made up by the interply of ten thousand threads. Every faculty is a spinner, spinning every day, and almost every day threads of a different colour. Myriads and myriads of webbed products proceed from the many active faculties of the human soul, and character is made up by the weaving together of all these innumerable threads of daily life. Its strength is not merely in the strength of some simple unit, but in the strength of numerous elements."—*Ward Beecher.*

mae y naill yn wir, yn gadarn ac yn anghyfnewidiol, tra y mae y llall yn ystwyth, ac yn hawdd ei droi bob ffordd. Gan fod y cyntaf yn sylweddol yn ei hanfod, y mae o'r pwys mwyaf ar iddo gael pob chwareu teg i ymddadblygu; ond nid ydyw yr ail, ar y goreu, ond cysgod, ac os nad ydyw yn rhedeg yn gyfochrog â'r cyntaf nid ydyw hyd yn oed yn gysgod o'r sylwedd, a gellir yn ddiogel ei yru ymaith o'r meddwl, gan y dadwreiddir ef yn hwyr neu hwyrach gan arglwyddiaeth y gwirionedd.

Cymmeriad ydyw amlygiad o allu llywodraethol y natur ddynol, a'r gallu hwn ydyw gwaddoliad Natur dan law y Creawdwr. Y mae pob person unigol yn dderbynydd o hono. Y mae Rhaglunaeth ddwyfol, yn ei hanfeidrol ddoethineb, wedi ei gyfranu a'i gyflëu mor gymmedrol a chyfartal, nes y mae pob rhan a phob adran o hono yn ffurfio olwyn yn yr un peirianwaith ardderchog a elwir *dyn*, yr hwn sydd yn lledaenu ei ddylanwad dros yr holl greadigaeth. Fel hyn y mae i bob un ei agwedd bersonol yn ogystal a'i nodweddion cymmeriadol; a chan fod pawb yn rhyw gymmaint yn wahanol i'w gilydd, y mae yn dilyn eu bod mewn cyflwr o rugliad parhaus, ac fod dylanwad y naill yn gwrthweithio, neu ynte yn cefnogi yr eiddo y llall.

Oes, y mae cymmaint o hynodrwydd yn perthyn i gymmeriad moesol pob dyn ag sydd yn perthyn i'w ymddangosiad allanol a'i wynebpryd. Y mae amrywiaeth yn un o hanfodion Natur, yn un o'i phrif nodweddion; ac yn wir, mor bell ag y gall dyn farnu, yn un o'i dillynion prydferthaf a mwyaf swynol. Yn y byd llysieuol, meddylier am foment am y lluoedd amrywiol o goedydd, manwydd, ffrwythau, llysiau, a blodau; meddylier am y miloedd o ddail sydd ar yr un pren, a phob deilen yn wahanol; neu meddylier am y myrddiynau o laswellt yn tyfu yn y maes, a phob glaswelltyn yn wahanol! Neu drachefn, os na bydd hyny yn ddigon i argyhoeddi, meddylier am nifer aneirif y tywod màn ar lan y môr, neu y grisial ar lanau yr afon, a chan dreiddio i ddirgelion tywyllaf daeareg gydà chymmhorth y mwyadur, sylwer arnynt yn fanwl, a cheir gweled fod pob tywodyn a phob mymryn o'r gronynau grisialaidd yn meddu agweddau gwahanol! Y mae yr un ddeddf—deddf gwahanfodolrwydd—yn llywodraethu y greadigaeth ddynol. Er fod yna, ar yr olwg gyntaf, ryw debygolrwydd hynod mewn meibion o'r un genedl i'w gilydd, etto nid oes dau o honynt yn *hollol* yr un fath; ac er fod i bob cenedl ei chymmeriad priodol, felly hefyd y mae gan bob person unigol. Fel hyn, ceir y cenedlaethol, y cyfundebol, y teuluol, a'r personol; a phob un o'r gwahanol agweddau hyn ar gymmeriad yn gyd-blethedig, ac yn cydweithio er da neu er drwg mewn pob aelod gwahanfodol o gymdeithas.

Y mae y cymmeriad moesol yn dadblygu yn gydamserol â'r dadblygiad corphorol; ac fel y mae y corph yn dadblygu, y mae cymmeriad yn gyfattebol yn dyfod yn elfen fwy-fwy pwysig yn hanes y dyn, a mwy dylanwadol ar y byd o'i amgylch. Afresymol fyddai ceisio priodoli cymmeriad i blentyn bach cyn dyfod o hono

yn alluog i feddwl, i farnu, ac i atteb drosto ei hunan—cyn bod o hono yn ddigon hen a phrofiadol i allu dymuno ac ewyllysio; o blegid y mae y cymmeriad yn hanu o'r ewyllys, ac fel y mae dyn yn ewyllysio, felly y mae yn gweithredu, o leiaf hyd eithaf terfynau ei ryddid cyfreithlawn. Y mae y dymuniadau—da neu ddrwg—trwy eu meithrin, yn ymddadblygu yn fwriadau; y bwriadau, os eu hir goleddir, yn esgor ar weithredoedd; y cyfryw weithredoedd drachefn, trwy eu mynych gyflawni, yn dyfod yn hawddach a rhwyddach, nes yn y man yn ymgaledu fel arferion sefydlog, *a'r arferion hyn ydyw y defnyddiau â'r rhai yr adeiledir y cymmeriad.* Y mae arferion gwlad* neu gyfundeb yn cyfranu nid ychydig tuag at ffurfiad y cymmeriad personol; ond yn fwyaf arbenig yr hyn a olygwn yma ydyw yr arferion hyny y mae pob person unigol yn fabwysiadu iddo ei hunan; o blegid wedi'r cyfan, rhaid olrhain cymmeriad cyffredin cymdeithas i lawr at eiddo y gwahanfodau ag ydynt yn gydgrynöedig yn ffurfio cymdeithas.

II.

CYMMERIAD DA

"Llewyrch y llygaid a lawenhâ y galon:
A gair da a frashâ yr esgyrn."

"Mwy dymunol yw enw da na chyfoeth lawer."—*Solomon.*

Priodolir brawddeg hynod i Isaac Watts, yr hon y dywedir y byddai yn hoff o'i dadgan mewn dull nodweddiadol, ac y mae wedi ei hanfarwoli mewn rhai o'i weithiau argraphedig; os ydwyf yn cofio yn iawn, y mae i'w gweled yn y rhagymadrodd i'w *Art of Logic.* Rhywbeth tebyg i hyn ydyw: "Rhaid yn gyntaf dysgu yr hyn y bwriedir ei arfer." Wrth gwrs, ar yr olwg gyntaf, nid oes dim anghyffredin yn y frawddeg hon; ond y mae y gwirionedd a gynnwysir ynddi yn gyfryw ag y dylai pawb ar sydd yn dymuno adeiladu cymmeriad cadarn fod yn feddiannol arno. Y mae y tebygolrwyd sydd yn bodoli yn fynych rhwng y gwir a'r gau yn gyfryw ag sydd yn ein gwneyd ni yn agored i gamgymmeryd y naill yn lle y llall, os nad ydym yn gyntaf wedi *dysgu* gwahaniaeth rhyngddynt; ond unwaith y byddis wedi dyfod yn feddiannol ar wybodaeth o'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt, y gallwn ymarfer gweithredu yn unol â'r wybodaeth hono.

Sylwyd yn barod fod cymmeriad dyn yn dadblygu gyda'r corph; ac y mae i fywyd corphorol dyn, fel y cymmeriad neu y bywyd bucheddol, ei daith-raddau, ei dymmhorau, ei adegau neillduol.

---

* "The different situations of different ages and countries are apt to give different characters to the generality of those who live in them: and their sentiments concerning the particular degree of each quality, that is either blamable or praiseworthy, vary, according to that degree which is usual in their own country and in their own times."—*Adam Smith, 'Theory of Moral Sentiments' (1822).*

"Pan oeddwn fachgen," meddai Paul yn ei epistol at y Corinthiaid: —"Pan oeddwn fachgen, fel bachgen y llefarwn, fel bachgen y deallwn, ac fel bachgen y meddyliwn; ond pan aethum yn ŵr, mi a roddais heibio bethau bachgenaidd." Fel y mae y corph yn tyfu a chryfhau, y cynneddfau yn ymagor, a'r meddwl yn diwyllio—fel y mae peiriannwaith dynol yn ei holl deithi yn ennill nerth a chadernid, a'r dyn o ddydd i ddydd yn casglu gwybodaeth, ac yn dyfod yn fwy-fwy profiadol, felly hefyd y mae y cymmeriad yn cael yn raddol ei adeiladu—yn ymledu, ac ymestyn yn ei ddylanwad er da neu er drwg. Dywed Hewitt* nad ydyw y tri thymmor ar fywyd dyn, o'i fabandod hyd un-ar-hugain oed, ond adegau o barotöad erbyn y tymmor mawr, yr uchelbwynt hwnw yn ei hanes, pryd y bydd wedi "myned yn ŵr," wedi "rhoddi heibio bethau bachgenaidd," ac yn ffurfio ei gymmeriad ei hun. Y mae yn angenrheidiol gan hyny, feddu o honom wybodaeth drwyadl o'r gwahaniaeth sydd yn bodoli rhwng cymmeriad da a chymmeriad drwg. Os yn ddiffygiol yn hyn, pa fodd y gallwn efelychu y cyfiawn, y daionus, y rhinweddol? Pa fodd yr adeiladwn i ni ein hunain gymmeriad aruchel, pur a rhinweddol, teilwng o'i ddilyn a'i efelychu *gan evaill drachefn?* Y mae yn angenrheidiol bod o honom yn ymwybodol o'r peryglon yr ydym yn agored iddynt; y dyledswyddau sydd yn rhwymedig arnom fel creaduriaid cymdeithasol, rhesymol a moesol; y nodweddau rhinweddol y dylem eu meddu, a'r gwirioneddau y dylem eu cymmhwyso atom ein hunain yn ystod ein bywyd. Mewn gair, dylem geisio sylweddoli ein sefyllfa bresennol yn ei chyssylltiad â'n sefyllfa ddyfodol—pa fodd y dylem feddwl, llefaru, ac ymddwyn yn y cyflwr yr ydym yn sefyll ynddo yn ein perthynas â Duw a'n cyd-ddyn. Yma y mae y pwngc yn un dwfn i'r eithaf—dim llai na phwngc dyrys cyfundrefn o ddyledswydd bywyd dynolryw. Modd bynag, rhaid ymfoddloni yma yn unig ar geisio ymdrin â'r cwestiwn yn ei berthynas â thestyn ein hysgrif.

III.

SEILIAU CYMMERIAD DA.

"Cais wybodaeth, ac â'th holl enaid cais ddeall."—*Solomon.*

"Not to know at large of things remote
From use, obscure and subtle; but to know
That which before us lies in daily life
Is the prime wisdom."—*Milton.*

"Nid glân, ond glân ei galon."—*Hen ddiareb Gymreig.*

Wedi cael cyngynllun amlinellol o'r adeilad a'i wahanol ystafelloedd, ynghyd â brâs-ddesgrifiad o'i agwedd allanol—y ffurf a'r addurnau mwyaf dymunol yn ngolwg y perchenog neu y gŵr sydd i drigo ynddo—gwaith cyntaf yr adeiladydd ydyw gosod i lawr y sylfaeni,

*Pregethau Dr. Hewitt, cyf. 2, preg. vi.

y seiliau. Ar gadernid a sefydlogrwydd y rhai hyn y dibyna bodolaeth yr holl adeilad. Os na fydd seiliau y tŷ, nid yn unig yn ddiysgog ynddynt eu hunain, ond hefyd wedi eu dodi â dwylaw celfyddgar ar *le* cadarn, anaddas hollol fydd y tŷ hwnw i drigiannu ynddo, ac ofer fydd ceisio gwneyd hyny, o herwydd ei gyflwr anniogel a pheryglus yn ngwyneb rhuthriadau grymus gwynt a gwlaw; oes fèr fydd iddo, a'i hanes yn ebrwydd, yn ddïau, fydd, "Y gwlaw a ddisgynodd, y llif ddyfroedd a ddaethant, a'r gwyntoedd a chwythasant ac a ruthrasant ar y tŷ hwnw, ac efe a syrthiodd, a'i gwymp a fu fawr!" Yn awr, fel yr awgrymwyd yn ein hadran ddiweddaf, *adeilad* ydyw cymmeriad dyn. Adeilad ydyw nid mewn ystyr cyfyng, nac mewn arddull arbenig o iaith ffigyrol neu dröellymadrodd barddonol yn unig, ond yn ystyr ëangaf a goreu y gair. Careg ar gareg; gweithred ar weithred; gair ar air! Pe dadansoddid y môr eangfawr, aruthrol yna, ceid nad ydyw ei dònau trochionog, meddai gwyddonwyr, ond dyferynau hylifol heb rif wedi ymgofleidio mor llwyr nes ymddangos yn un; ie, a phob un o'r dyferynau hyny drachefn yn gynnwysedig o filoedd o ddefnynau mor eiddil nas gall y llygad noeth eu canfod! Y mynyddoedd anferth a'r creigiau danneddog, beth ydynt, meddir, ond pentyrau o wahanol geryg a chregyn wedi eu gwneyd i fyny o fyrddiynau o ronynau mân odiaeth ag y mae Natur er 's miliynau o flynyddoedd wedi bod yn eu casglu at eu gilydd! Ond, o ran hyny, oni ddywedir mai adeilad yw y ddaear? Ceir yn rhywle fod ei chongl-faen wedi ei gosod, ei sylfaeni wedi eu sicrhau; fod llinyn wedi ei estyn arni a'i mesur wedi ei gymmeryd.* Ond i ddychwelyd. Adeilad ydyw y cymmeriad ag sydd yn teilyngu y gelfyddyd gywreiniaf, y manylwch treiddiaf, y diwydrwydd mwyaf cyfangwbl a hir-barhäol yn ei saernïaeth. Y mae hyn yn anghenrheidiol anhebgorol os bwriedir yr adeilad i fod yn anrhydedd i'r adeiladydd, ac yn addurn i ddynoliaeth—os dymunir iddo fod yn gysgod clyd rhag ystormydd gerwin bywyd, ac yn lloches ddiogel rhag anrhaith y gelyn. Y mae ffurfiad y cymmeriad, gan hyny, yn hawlio cydgrynhöad yr holl alluoedd mewn gweithgarwch; ac yn hyn gall y cynneddfau godidocaf, a'r cyrhaeddiadau arddunaf, gael eu rhoddi ar waith yn dra buddiol; ac os gwneir hyny yn drwyadl, ceir fod swydd i bob rhinwedd, a lle i bob ansawdd daionus.

I. Tybiwn mai un o'n dyledswyddau cyntaf a phwysicaf tuag at barotoi lle cymmhwys yn yr hwn i osod i lawr sylfeini cymmeriad dâ, ydyw hunan-adnabyddiaeth, neu wybodaeth drwyadl o honom ein hunain—*h.y.*, beth yw ein tymmherau a'n tueddiadau, ein nwydau a'n chwantau mwyaf nerthol; ein prif dalentau a'n doniau; ein gwendidau, a'r ffaeleddau yr y'm yn fwyaf agored iddynt; y peryglon a'r temtasiynau sydd yn ein dilyn; ein hamgylchiadau bydol, ein safleoedd mewn cymdeithas; a'n perthynas a dynolryw o'n hamgylch; ein dyledswyddau parhaus ac achlysurol; ein

* Job xxviii. 4, 5, 6.

breintiau a'n manteision, a'n hanfanteision; a lliaws o bethau eraill. Y mae arolygiad o'r pethau hyn, eu sylweddoli, a'u cadw yn barhaus yn ngolwg llygad y côf, yn ddïau o werth annhraethol: dysg ni i wylio yn erbyn ein gwendidau, i ddiwyllio ein meddyliau, ac i wellhau ar bob hamdden cyfreithlawn i iawn-ddefnyddio ein talentau, a'u cyfeirio at yr amcanion goreu a theilyngaf.

II. Y mae gwybodaeth o ddynolryw yn ddymunol. Dylem chwilio nid yn unig beth yw natur gyffredin, galluoedd, beiau, rhinweddau, a gwendidau dynolryw; ond dylem ymarfer ein hunain i sylwi yn arbenig ar dueddiadau ac ansoddau y personau yr ymgyfeillachwn â hwynt, a'r rhai hyny y deuwn i gyffyrddiad â hwynt yn ein galwedigaethau. Creadur amgylchiadau ydyw dyn i raddau helaeth; ac y mae gan y gymdeithas y mae yn troi ynddi lawer i wneyd a ffurfiad ei gymmeriad. Y mae yr hyn a ymddengys yn anweddus mewn eraill yr un mor anweddus ynom ninnau; a'r un modd yr hyn sydd brydferth. Y mae adnabyddiaeth o gymmeriadau eraill, ynte, yn ddymunol ac yn anghenrheidiol. Daw gwerthfawredd y wybodaeth hon i'r amlwg yn y modd hapus y dylanwada arnom trwy ein harwain i ochelyd beiau y drygionus a ffaeleddau yr anffodus, ac i efelychu y rhinweddol yn eu bucheddau, i wylio ein hunain yn erbyn peryglon a thrueni, yn ogystal a chydymdeimlo â'n cyd-ddynion, a thosturio wrthynt yn eu hamrywiol ofidiau a phrofedigaethau, a'u cynnorthwyo o honynt, pa bryd bynag y gallwn, yn galonog ac ewyllysgar.

III. Y mae gwybodaeth o'r byd a'i bethau o werth annhraethol yn ffurfiad y cymmeriad. Yn fyr, dylem fod yn ddifrifol, yn ddiwyd, a llafurus, i geisio pob gwybodaeth ag sydd yn debyg o'n cynnorthwyo yn ein galwedigaethau, i ysgafnhau a rhyddhau ein llafur, ac i ddiwyllio a choethi ein gwaith, a'i wneyd yn werthfawrocach yn ngolwg ein cyd-ddynion. Ond odid nad amlygir cymmeriad dyn mor fanteisiol byth nac mewn unman ag y gwna tra'n dilyn ei grefft yn y siop weithio; neu yn y swyddfa wrth ei osgfwrdd; neu yn y fasnachfa o flaen ei gyfrif-fwrdd; neu yn y maes yn aredig neu gau a chloddio; neu yn y chwarel yn tyllu; neu i lawr yn y pwll glô, neu rhyw bwll arall, yn llafurio dan anhawsderau. Yno, gan nad beth fyddo ei alwedigaeth, y daw ffrwyth ei ymchwiliad a'i fyfyrdod i'r golwg yn fynych; yno daw ei ddiffygion, a chanlyniadau ei ddiogi a'i ddifaterwch i'r golwg yr un modd; yno y dygir allan yn aml y trysorau, neu beth bynag sydd ynddo; yno, mewn gair, y bydd tynu allan parhaus o'i holl adnoddau. Yno, hefyd, y profir ei dymmer, y profir ei amynedd, ac y profir i'r eithaf ansawdd a gwerth pob rhinwedd y tybia ei fod yn feddiannol arno. "Cais wybodaeth, ac â'th holl enaid cais ddeall," ydyw cynghor y gŵr doeth. Credwn yn sicr fod gwybodaeth gyffredinol, ond gwneyd yr iawn ddefnydd o honi, yn un o'r elfenau gwerthfawrocaf yn y cymmeriad dynol. Ail ddywedwn, *os gwneir yr iawn ddefnydd o honi;* o blegid y mae gwybodaeth yn offeryn peryglus yn nwylaw y diegwyddor a'r llygredig, a gall y rhai hyn gyflawni gymmaint o

ddrygioni â'r cyfryw offeryn ag y gall y pur ei galon a'r uniawn ei fwriadau gyflawni o ddaioni. Melldith ydyw gwybodaeth i'r hwn sydd yn ei cham-ddefnyddio. Trismegistus, yr hen offeiriad a'r philosophydd Aiphtaidd hwnw, onid ê? sydd yn dyweyd yn rhywle fod "anwybodaeth nid yn unig yn arddangos cysgadrwydd a ffolineb meddyliol," ond hefyd ei fod ynddo ei hunan "yn bechadurusrwydd yn yr enaid," ac fod "*damnedigaeth yn y byd hwn ac yn yr hwn a ddaw yn tarddu o anwybodaeth!*" Ni ddymunem ni yma, fodd bynag, fyned i'r fath eithafion a'r hen awdwr hwn; a diau fod ei syniad ef am wybodaeth ychydig yn wahanol i'r eiddom ni. Ac wrth fyned heibio, gallwn sylwi fod "ysgolion" wedi gwneyd nifer diddiwedd o raniadau, adraniadau, ail raniadau, ac ol-raniadau o'r hyn a elwir ganddynt yn "wybodaeth," fel y mae addysg oes o amser yn rhy brin i'n galluogi i wahaniaethu rhwng gwybodaeth ac *an*wybodaeth. Yn y byd hwn, meddai y Dr. Donne, nid yw gwybodaeth ond megys y ddaear, ac anwybodaeth ond megys y môr; mwy o fôr nag o ddaear, mwy o anwybodaeth nag o wybodaeth; ac os ydyw y mor yn ennill mewn un lle, y mae yn colli mewn lle arall; os ceir allan bethau newyddion, y mae cynnifer o bethau—a phethau mor fuddiol, efallai—ag y wybuwyd o'r blaen, yn myned ar goll, a'u anghofio. . . . Ond ynglŷn âg adeiladaeth y cymmeriad, hyderwn y gwêl ein darllenwyr caredig ar unwaith mai nid ystyr cyfyng ac uchanianol yr "ysgolion" a roddir genym i'r gair cynnwysfawr hwn, ond defnyddiwn ef yn ei ëangder, ei gyflawnder, a'i symlrwydd cyffredin. Nac ymffrostied neb, ynte, fel y gwna rhai o dywysogion a brenhinoedd y ddaear, fod ganddynt gyfrinachau nad oes neb yn eu gwybod na'u hadnabod, tra, o bossibl, nad ydynt mewn gwirionedd, yn adnabod eu *hunain*, nac yn deall y filfed ran o dueddiadau a dirgelion eu calonau!

(I'w barhau.)

GADEWCH IMI FARW.

Yr olygfa yw merch ieuanc yn galaru ar ol ei mam.

Gadewch imi farw—mae mam yn y bedd,
Mae'n huno yn dawel dan gysgod yr ywen;
Da cofiaf y diwrnod y cuddiwyd ei gwedd
Gan oerion fantellau y ddu-goch dywarchen.

Gadewch imi farw—mae'n well genyf fod
Gyda mam wedi marw, na byw heb ei chwmni;
Mwy oer yw ei mynwes mi wn nag erioed,
Ond gorwe'n ei mynwes a garwn er hyny.

Gadewch imi farw—rhaid marw ryw bryd,
A gore po gyntaf i 'nghwrdd I daw marw;
Gwell marw ar unwaith na marw o hyd
Yn nghanol argyllaeth dirboenus a chwerw.

Gadewch imi farw—a marw fel mam;
Mor dawel a dedwydd anadlodd hi'r olaf,
A phan fyddo angel y maban dinam
Yn suo i gysgu'n yn y cawell esmwythaf.

Gadewch imi farw—efallai fod mam
Yn awr yn fy nysgwyl yn mro y dedwyddion;
Er unpeth ni charai i'w phlentyn gael cam,
A cham ar y ddaear yw tynged dynolion.

Gadewch imi farw—'dyw'r cyfwng ond cul
Sy rhyngwyf yn rhanu a thragywyddoldeb;
Y funyd bawn farw angylion ddoent fil
I 'nghludo yn ddiogel i froydd y purdeb.

Gadewch imi farw—am farw y nos
Er collais f' anwylfam 'rwy'n cysson freuddwydio;
Gan weled fy hunan, uwch hiraeth a loes,
'N ei llaw hyd ystrydoedd Caersalem yn rhodio.

Gadewch imi farw—'rwy'n tybio o hyd
Fod llaw mam yn teimlo f' arianaidd gudynau,
I'w trefnu a'u plethu fel pan yn y byd,
A'i wyneb serchoglawn yn arllwys ei wenau.

Gadewch imi farw—mae blodau yr ardd
Er collais f' anwylfam yn plygu ac wylo;
'Dyw'r lili mor brydferth, na'r tiwlip mor hardd,
Am ddydd fy marwolaeth maent fel yn och'neidio.

Gadewch imi farw—mae'r cybydd am fyw,
Caed fyw nes digoni ei drachwant diddarfod;
'Does dim ar y ddaear a wella fy mriw,
'Dyw mawredd ond gwegi, a golud ond sorod.

Gadewch imi farw—mae nhad eto 'nol,
Tad anwyl a thyner erioed y'i gwelais,
E' sycha fy nagrau, e'm cymmer i'w gol;
Ond llawer anwylach y fam dirion gollais.

Gadewch imi farw—pall f' anadl yn lân,
Fy nghalon a gura yn wanach a gwanach;
A dorau marwolaeth agorant o 'mlaen,—
At mam af yn ebrwydd - i farw byth mwyach.

Jonawr, 1855. GWILYM MARLES (1834-1879).

ARIAN BATHOL Y BEIBL.

Tebyg mai'r cyfeiriad cyntaf at ddefnyddio arian yn y Beibl yw yr un a geir yn Genesis xxiii. 3—16, lle y ceir hanes am Abraham yn cytuno i dalu "pedwar can' sicl o arian cymmeradwy" i Ephron am ei faes; ond mwy nâ thebyg mai arian heb ei fathu *(uncoined)* oedd. Yr oedd yr arian yn dalpau annghyfartal, fel yr oedd eisieu ei bwyso.

Yn Exodus xxx. 11—15, y tâl a ddysgwylid i bob un gyfranu tuag at gynnal y Pebyll oedd hanner sicl; ac fe esponir mai arian offrwm oedd, yn ol sicl y Cyssegr, gan nad oedd yr hanner sicl cyffredin yn bwysau da.

Yn Samuel ix. 8, gwas Saul a ddywed, "Wele, cafwyd gyda mi bedwaredd ran sicl o arian." Ac yn nyddiau Nehemiah, pan y gostyngwyd treth y Deml o herwydd tlodi y wlad, cawn fod traian (neu'r drydedd ran o) sicl yn ddarn o arian yn cael ei ddefnyddio (Nehemiah x. 32).

Pan y darfu i Jeremiah brynu maes Hanameel yn Anathoth yn nhir Benjamin, ysgrifenodd y telerau mewn llyfr ac a'i seliodd, gan gymmeryd tystion a phwyso yr arian mewn clorianau. Ac etto, yn Zechariah xi. 12, 13), darllenwn "Os gwelwch yn dda, dygwch fy ngwerth; ac onid e, peidiwch. . . a'm gwerth a bwysasant yn ddeg-ar-hugain o arian, &c. Cymharer Exodus xxi. 32 â Matthew xxvi. 15.

Yn nyddiau y Brenin Josiah cawn ychydig yn ychwaneg ar y pwnc. Yn 2 Breninoedd xxii. 9 darllenwn fel hyn: "Dy weision di a *gasglasant* yr arian a gafwyd yn y ty." Yn y Cyfieithad Saesneg Diwygiedig fel hyn: "Thy servants have *emptied* (or poured) *out* the money that was found in the house." Yn ol Samuel Sharpe, "Dy weision a *doddasant* (neu fathasant) yr arian a gafwyd yn y Ty," ac a'i rhoddasant yn llaw gweithwyr y gwaith. Ni wyddys yn debyg i beth oedd yr arian bathol hyn.

Yn ystod blynyddoedd hirion y Gaethglud, ni chafodd yr Iuddewon gyfleusdra i fathu arian. Tebyg iawn eu bod yn defnyddio arian y gwledydd oeddynt yn byw ynddynt. A phan sonir yn Llyfr Ezra ii. 69, am y dracmonau aur a ddygasant gyda hwynt at adeiladu y Deml, mwy nâ thebyg fod y cyfeiriad at y Daric Persiaidd, cyffelyb i rai welir heddyw yn ein hamgueddfeydd. Ymddengys y metel wedi ei forthwylio i'r mold, heb un cais i wneyd ffigwr ar y wyneb arall.



Daric Persiaidd,
amser Darius I, C.C. 500.

Yr oedd y byd oddiamgylch yr Iuddewon yn raddol yn dysgu'r gelfyddyd o weithio mewn meteloedd. Yn ystod y cyfnod byr hwnw y bu'r Iuddewon yn genedl annybynol dan y tywysogion Maccabeaidd, bathent arian iddynt eu hunain, a gosodent eu harwyddluniau eu hunain arnynt. Y mae ar glawr yn awr fathodyn (sicl Iuddewig), yn perthyn i'r tymhor hwn, nid tebyg i'r sicl o bwysau a ddefnyddid yn amser Abraham, ond bathodyn prydferth, gydag arysgrifen Hebreig mewn llythyrenau Samaritanaidd.

Sicl arian, gyda gwialen Aaron ar un wyneb a'r geiriau Jerusalem Sanctaidd; ac ar y wyneb arall, llestraid o fanna, gyda'r geiriau Sicl Israel, blwyddyn 2, C.C. 140.

Yn amser y Testament Newydd rhoddodd yr Ymherawdwyr Rhufeinig genad i deulu yr Herodiaid fathu arian; ond y bathodynau Rhufeinig oedd y mwyaf cyffredin yn y wlad; a phan y sonir am *geiniog* yn nammeg y Samariad da (Luc x. 30—37), yr enw Rhufeinig *denarius* a ddefnyddir. Nid oedd ond ychydig yn fwy ei faint nâ chwe' cheiniog, ond rhaid ei fod yn llawer mwy o werth yn y dyddiau hyny, gan fod dau o honynt yn ddigon i dalu'r llettywr am ei ofal o'r dyn clwyfedig.

Denarius arian, gyda phen Tiberius Cæsar ar un wyneb.

Ac etto, yn Matthew xxii. 19, pan y dygant geiniog i'r Iesu, adwaenwn y *denarius* Rhufeinig oddiwrth yr ateb i ofyniad yr Iesu: "Eiddo pwy yw y ddelw hon a'r argraff?" "Eiddo Cæsar."

Yn Matthew x. 29, cawn y gair *ffyrling*. Bathodyn Groegaidd oedd hwn, sef *Assarion*. Y copi yn yr ymyl a wnaed yn Ynys Chios. Nid bob amser y ceir ar hen fathodynau ddim i ddynodi eu gwerth; ond ar un wyneb i hwn ceir y gair ACCARION yn penderfynu hyny.



Assarion copr, yn pwyso 79 o ronynau.

Nid oes sicrwydd beth oedd y darnau ddarfu i'r weddw dlawd fwrw i'r drysorfa, Luc xxi. 1—4—y ddwy hatling, neu *lepton*.

Nid yw yr uchod ond ychydig o'r bathodynau a ddefnyddid yn Judea yn amser y Testament Newydd. Yr oedd bathodynau Persia, Groeg, Rhufain, a Syria, yn gwasanaethu yn y farchnad yn gystal â'r Sicl Hebreig a ddefnyddid fel offrwm yn y Deml.

CHWEDLONIAETH Y NADOLIG.

Cymmysg iawn ac amrywiog iawn yw y meddyliau a ymgodant mewn cyssylltiad a'r Nadolig—adgofion am yr Iesu, ond yn gymmysg â llawer o Baganiaeth. "What," ebe rhywun un tro wrth y diweddar Mr. Spurgeon, "don't you believe in Christmas?" "No," ebe yntau, "I don't believe in *Christmas* nor in any other mass!" Ystyr *mass* yw yr offeren, yr offeren Babyddol, ac nid oedd Mr. Spurgeon yn credu yn offeren Crist *(Christ-mass)*, na'r un offeren arall. Pabyddol oedd y Nadolig felly iddo ef, ac, yn wir, nid yw llawer o Babyddiaeth ond Paganiaeth ddigymmysg. Paganaidd o darddiad yw gwisg y Pab, paganaidd yw ei wyliau, paganaidd ei ddefodau, paganaidd yw sylwedd llawer o'i gredoau.

Ystyr Dydd Nadolig yw dydd genedigaeth, a'r hyn a feddylir wrtho yw fod yr Iesu wedi ei eni ar y dydd hwnw; tra mae'r ffaith yn aros nad oes un rhithyn o sail i'r syniad. O holl ddyddiau y flwyddyn nid oes yr un yn fwy anhebygol. Mwy tebyg iddo gael ei eni tua'r gwanwyn, awgrymir cymmaint gan yr ymadrodd, "y praidd yn cael eu bugeilio liw nos;" ond y gwir yw fod y dydd yn ansicr, y mis yn ansicr, a'r flwyddyn yn ansicr.* Nid oedd y Cristionogion bore yn cynal gwyl genedigaeth yr Iesu. Ebe Clement o Alexandria, yr hwn oedd yn ei flodeu rhwng 193 a 217 O.C., "Y mae rhai, o ryw gywreinrwydd gorfanwl, yn ceisio penderfynu nid yn unig y flwyddyn, ond dydd genedigaeth ein Iachawdwr, yr hwn, meddant hwy, a anwyd yn yr 28 flwyddyn o Augustus, ar y 25ain o'r mis Pachon, hyny yw yr 20fed o Fai; tra y dywed rhai iddo gael ei eni ar y 24ain neu'r 25ain o'r mis Pharmuthi, hyny yw y 19eg neu'r 20fed o Ebrill;" ac felly y gedy Clement y pwnc. Y mae'r casgliad yn amlwg. Yr oedd y dydd yn anhyspys, a chyda golwg ar y flwyddyn, y dyb gyffredin yn mhlith dysgedigion heddyw yw ei fod wedi ei eni ryw bedair blynedd cyn y cyfnod presennol; hyny yw, tua 1899 (1895 gyda 4) o flynyddau yn ol. Yr adeg gyntaf y deuwn o hyd i wyl y Nadolig, cawn ei bod yn cael ei chynal ar y chwechfed o Ionawr.

Ond paham y penderfynwyd yn y diwedd ar y 25ain o Rhagfyr? Un rheswm amlwg yw fod un o wyliau pwysicaf y Paganiaid yn cael ei chynal ar yr adeg hono—y Saturnalia, neu wledd Sadwrn; pan oedd llawenydd a rhialtwch yn *order of the day*.

Ffurfiwyd yr eglwysi bore gan ddychweledigion o ddau gyfeiriad—yr Iuddewon a'r Paganiaid, ac yr oedd y rhai hyn mewn ymryson parhaus. Yn raddol aeth yr ail blaid yn fwy lluosog ac yn fwy dylanwadol; ac yn yr Aifft, yn enwedig, aeth Cristnogaeth yn gyflym trwy gyfnewidiadau pwysig, a chyssegrwyd y gwyliau paganaidd at wasanaeth Cristnogaeth. Daeth yr haul yn wrth-

---

* Y mae'r dydd genedigaeth wedi ei gyssylltu a phob mis o'r flwyddyn, ond Mehefin a Gorphenaf.

ddrych pwysig yn nefodaeth yr eglwys, a dywedir fod rhai o'r sectau yn addoli yr haul, gan ei ddefnyddio megys cyfryngwr fel y gwnelai y Parsïaid. Wrth addoli troent eu hwynebau at yr haul fel ffynonell goleuni. "Pan yn gweddio," meddai Clement, "troent eu hwynebau i'r dwyrain, at godiad haul. Yr oedd yr hen demlau i gyd yn gwynebu'r gorllewin, fel y gellid dysgu'r bobl i droi i'r dwyrain pan yn gwynebu y delwau." Felly'r eglwysi sefydledig heddyw, maent yn cynnal i fynu yr hen ddefod; a'r holl feddau yn mynwentydd y plwyf, gwynebant godiad haul—i beth? Aeth rhai o'r sectau mor bell a chyfrif mai yr un oedd yr haul a Christ. Meddai Tertwlian, un o'r tadau eglwysig yn y drydedd ganrif, "Y mae eraill, gyda mwy o wybodaeth a mwy o debygolrwydd, yn credu mai yr haul yw ein Duw ni." Yn eu tyb hwy, "nid oedd Crist y Testament Newydd na duw na dyn, ond yr haul ei hunan. Crist y Testament Newydd o ran dynoliaeth myth oedd, ac o ran ei ddwyfoliaeth yr haul oedd." O'r cyfeiriad hwn, hefyd, y mae'r cylch a welir o amgylch pen Crist mewn darluniau Pabyddol a Phrotestanaidd wedi tarddu; a thebyg ddigon fod y gwallt coch a'r gruddiau cochion mewn darluniau yn dadganu yr un berthynas.

Etto, i ddangos perthynas "Haul y Cyfiawnder" a haul naturiol y ffurfafen, y mae'n angenrheidiol i ni ystyried pwysigrwydd yr ail haul yn nhrefniant y bydysawd. Yr oedd yr haul i'r pagan yn bob peth. Efe ydoedd bywyd y byd, Creawdwr a Thad y bydysawd. Yr oedd pob bywyd yn deilliaw oddiwrtho, ac felly, yr oedd yn naturiol i'w alw yn greawdwr. Neu, yn nuwinyddiaeth yr Hindŵaid, efe oedd Brahma; ac yn ail, efe oedd ffrwythlonydd a chynnalydd y byd llysieuaidd ac anifeilaidd oll, ac felly yn Iachawdwr y byd neu Fisnw yr Hindŵaid—yn rhoddi bywyd ac yn cynnal bywyd; ond yn drydydd, fe berthyn i'r haul nodwedd arall a phwysig; trwy angerddoldeb ei wres mai yn llosgi ac yn lladd, yn lle meithrin a bendithio. Mae yn dinystrio er mwyn adnewyddu ei orchwyl o greu. Felly y cawn ni'r drindod—Brahma, Fisnw, a Sifa—y Crewr y Cynhaliwr, a'r Dinystriwr—y Trimwrti a ddangoswyd mewn darlun yn YMOFYNYDD Medi, tud. 215. Weithiau, yn lle'r drefn Brahma, Fisnw, Sifa, ceir Brahma yn y canol, gan roi'r flaenoriaeth i Fisnw, fel y gwneir â Christ yn eglwysi uniongred y dydd heddyw.

Ond paham y darfu i'r eglwys benderfynu ar y 25ain? O'r tri chant, pum' deg a phump o ddyddiau yn y flwyddyn, nid oedd yr un, erbyn hyn, yn ymddangos mor naturiol. Yr oedd yn ffitio yn gywir i ofynion yr amser, ac y mae'n debyg o aros mwy.

Ar yr 22ain Rhagfyr y mae'r haul yn myned i fewn i Drofan yr Afr, Alban Arthan yr hen Gymru, haul orsaf y gauaf. Dyma eithafnod llwybr yr haul yn nghyfeiriad y de. Ymddengys fel yn sefyll yma am dymhor. Dyma ystyr *solstice*, *sun-standing*. Ar y 25ain gellir ei weled megys yn ymysgwyd o'i gysgadrwydd, ac yn dechreu cychwyn ar ei daith tua'r gogledd. Mae'r dyddiau yn ymestyn a'r haul yn enill nerth o ddydd i ddydd, hyd nes yw ar

ganol ddydd haf yn Nhrofan y Cranc, Alban Hefin, yn dysgleirio yn ei holl nerth a'i ogoniant.

Fisnw oedd yr ail berson o drindod sanctaidd yr Hindŵaid, a ganwyd yntau ar y 25ain o Ragfyr. Bu Fisnw unwaith yn ddyn, a gelwid ef y pryd hwnw yn Crisna. Yn mhlith y Persiaid un enw ar yr haul oedd Mithra, a dathlid dydd ei enedigaeth ef ar y 25ain o Ragfyr. Yn mhen amser anghofiodd y bobl gyffredin mai yr haul oedd Mithra, ac felly aethant i addoli Mithra fel duw-ddyn. Yn yr Aifft, etto, yr oedd trindod yn dwyn yr enwau Osiris, Isis, a Horus (gwel YMOFYNYDD, Medi, tud. 215). Yr oedd Horus yn un o enwau yr haul, a ganwyd yntau ar y 25ain o Ragfyr.

Sylwer, etto, ar gyfatebiaeth hynod iawn yn hanes iachawdwyr y byd; nid yn unig cawsant oll eu geni ar y 25ain o Ragfyr, ond cawsant oll, fel yr Iesu, eu geni o fam forwyn *(virgin mothers)*. Mam Crisna oedd y forwyn Defaci, mam Horus oedd y forwyn Isis, mam Hercwlff oedd y forwyn Alcmena.

Y mae chwedloniaeth yr oll yn debyg iawn, ac i raddau mawr, yn rhedeg ar hyd yr un llinellau. Nid dynion oeddynt mewn gwirionedd, ond enwau gwahanol ar yr haul, ac fe'u ganwyd oll ar y 25ain o Ragfyr, am y rheswm a roddwyd uchod, ac fe'u ganwyd o forwynion, am fod yr haul y pryd hwnw, pan ar ei daith tua'r gogledd yn dwyn "arwydd y forwyn" i'r golwg yn ngorwel y dwyrain.

Cododd y syniad yn fore yn yr eglwys nad yr un oedd yr Iesu a'r Crist. Yr Iesu, wrth gwrs, oedd y person. Yr Iesu gafodd ei eni, a fu byw, ac a fu farw. Enw ar swydd yn unig oedd y *Crist* ar y cyntaf, yr Eneiniog, a chyfieithad o'r gair Hebreig *Messeia*. Rhoddodd y Gnosticiaid ystyr arall i hwn. Ni anwyd y Crist, meddent hwy, ni ddyoddefodd, ni fu farw. Nid oedd y Gnosticiaid yn foddlon bod yn ddysgyblion i Grist croeshoeliedig, a dyfeisiwyd y ffordd hon i gael gwared o "waradwydd y groes." Tebyg eu bod hwy mewn golwg gan yr Apostol Paul yn fynych, er enghraifft pan yn dywedyd, "Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist," ac etto, "Na ato Duw imi ymffrostio ond yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist;" ac etto, meddai Ioan, "Oblegid y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd, y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. Hwn yw y twyllwr a'r anghrist."

Fel hyn y dechreuwyd llygru athrawiaeth syml yr efengyl. Dychymygwyd dwy natur yn Nghrist—un yn ddwyfol a'r llall yn ddynol. Dywedid mai efe oedd y *Logos*, rhywbeth yn wahanol i Dduw ei hunan. Nage, meddai'r efengylwr Ioan, Duw ei hunan, ac nid rhywbeth arall yw y *Logos*. Y Logos hwn, yr hwn a gafodd yr enw Crist yn ol llaw, yr oedd o'r dechreuad. Yn Alexandria, aeth Messeia yr Iuddewon yn Logos y Groegwyr, ac yn rhywbeth gwahanol i'r dadguddiad o Dduw trwy yr Iesu. Aeth yn fath o rith a chysgod yn gyntaf, ac yna'n raddol fe'i dyrchafwyd ochr yn ochr a Duw, ac yn ogyfuwch a Duw.

Y pwnc mawr ini heddyw, yw myned yn ol a thu cefn i'r holl

lygriadau hyn, at Iesu fel y darlunir ef yn y tair efengyl gynta., a cheisio ei adnabod yn symlrwydd ei fywyd ardderchog a'i ogoniant nefol. Mae'r Iesu wedi ei eni. Dyna'r ffaith sydd yn aros.

"A symledd hardd y bywyd pur o'n blaen fel seren sydd ;
Rhydd falm a hedd ar boen a chur ein bywyd nos a dydd."

Ac os ydym am wneuthur coffa arbenig am ddydd ei enedigaeth, gwnaiff y 25ain y tro gystal ag unrhyw ddydd arall ; ond ceisiwn fod ein coffa yn deilwng ! Mae y modd y ceidw miloedd eu Nadolig yn bresennol yn bob peth ond teilwng. O'r braidd y gall neb fyddo'n rhoddi ystyriaeth ddyladwy i'r pwnc, feddwl fod meddwdod a chyfeddach yn weddus i goffadwriaeth yr Iesu. Bydded ein coffa am dano er ei ogoniant ef a'n lles uwchaf ein hunain. Gadawodd i ni esampl fel y canlynem ei ol. Ceisiwn fod yn bur fel yr oedd yntau yn bur, a chan ymwadu â phob annuwioldeb a chwantau bydol, ceisiwn fod bob amser fel efe, yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol. Yna, pan orphenwn ein dyddiau, bydd lle i ninau obeithio am adael coffadwriaeth felus ar ein hol. T.C.U.

CALFIN A SERFED.

"Servetus, a wise and holy man."—*John Wesley.*

Mae rhifyn Hydref o'r *Llenor* yn dda odiaeth—yr erthygl ar Macbeth, dan y pennawd, "Gem Llenyddiaeth Lloegr," yn swynol, a'r un ar John Calfin, oddiar safle Calfiniaeth yn llawn goleu clir. Da ini gael gwybod beth ellir ddywedyd yn ffafr John Calfin. Yr oedd yn ddiamheu yn ddyn mawr, yn ddyn da yn yr ystyr ei fod yn ddyn cydwybodol, yn ddyn o dalentau dysglaer, yn berchen ar ben mawr, ond ar galon fyddai yn rhy fach i wasanaethu llygoden *respectable.* Arferai y diweddar Barch. John James, Gellionen, ddywedyd os caniateid gosodiadau *(premises)* John Calfin, nas gellid gochelyd ei gasgliadau. Yr oedd yn ymresymwr cadarn, ond mai peiriant rhesymegol yn unig oedd, heb ynddo ddim i'w garu, yn fwy nag sydd mewn peiriant. O ran athrawiaeth, nid oes dim gwahaniaeth mawr rhwng Luther (1483 – 1546) a Chalfin (1509—1564); yr oedd y ddau yn ddysgyblion i Sant Awstin (354—430). Pwysfawrai'r blaenaf yr athrawiaeth o Gyfiawnhad trwy Ffydd, a'r olaf Oruchafiaeth a Mawrhydi Duw. Gyda'r naill y pwnc mawr oedd perthynas bersonol y pechadur â Christ ; gyda'r llall, urddas a mawrhydi Duw, yr Hwn sydd uwchlaw pawb. Cytunai'r ddau i appelio oddiwrth anffaeledigrwydd y Pab at anffaeledigrwydd llyfr, sef eiddo'r Beibl. I ni heddyw ymddengys y ddau anffaeledigrwydd un mor rhesymol neu afresymol â'r llall.

Honir fod Calfiniaeth yn ffafriol i ryddid. Dywedai y Dr. Lewis Edwards o'r Bala ei bod, a dywed yr erthygl yn *Y Llenor* ei bod ; a

dichon fod hyny yn rhyw ystyr yn wir, ond y mae yn fwy nag y gellir yn gyfiawn ei ddywedyd am John Calfin ei hunan. Dywedir fod gwledydd Calfinaidd wedi bod yn bleidiol fwy neu lai i ryddid, a bod rhai o ddynion mawrion y byd, er yn Galfiniaid, wedi bod yn bleidiol felly. Ebai awdwr yr erthygl dan sylw, "O fysg y Calfiniaid y daeth y rhai ryddhaodd gydwybod dyn, megys Oliver Cromwel a John Milton yn ein hynysoedd ni." O fysg y Calfiniaid, ond o bossibl heb fod yn Galfiniaid—o leiaf, yn Galfiniaid cysson, yr oedd y ddeuddyn crybwylledig yn ffafriol i ryddid. Credwn y byddai yn rhy anhawdd profi fod dim mewn Calfiniaeth fel cyfundrefn sydd yn ffafriol i ryddid cydwybod cyffredinol. Addefwn yn rhwydd fod llawer o ddynion rhyddfrydig, a diolch am danynt, wedi bod ac yn bod yn galw eu hunain yn Galfiniaid; ond nis gallwn lai nag edrych arnynt fel rhai yn well nâ'u credo. Ni fedrai John Calfin gredu fod dyn a wahaniaethai oddiwrtho ef yn gadwedig; ac nis gallai oddef y cyfryw. Yr oedd John Calfin yn anffaeledig: yr oedd yn iawn heb un amheuaeth; ac felly yn ol y peiriant rhesymegol, a chan ganiatau y gosodiadau, yr oedd pob un a wahaniaethai, ac yr oedd hyny mor amlwg â'r dydd, heb fod yn iawn. Mewn llythyr dyddiedig Hydref 22, 1548, dywed fel hyn:

"Oddiwrth yr hyn wyf yn ddeall, fy Arglwydd, y mae genych ddau fath o wrthryfelwyr wedi codi i fyny yn erbyn y Brenin ac yn erbyn y wladwriaeth. Y naill yn bobl benchwiban, y rhai dan gochl yr Efengyl a ddygent bobpeth i gyflwr o ddyryswch, a'r llall, pleidwyr cyndyn ofergoelion yr annghrist Rhufeinig. Teilynga'r naill fel y llall gael eu darostwng trwy rym y cleddyf, sydd wedi ei osod yn eich dwylaw chwi, yn gymmaint â'u bod yn ymosod, nid ar y Brenin yn unig, ond ar Dduw, yr Hwn a'i gosododd ar yr orsedd, a'r Hwn a ymddiriedodd i chwi amddiffyniad ei fawrhydi yn gystal â'i berson."

Mor wahanol oedd yspryd Martin Luther. Fel hyn yr ysgrifenai efe yn 1528, gan gyfeirio at yr Ailfedyddwyr:

"Etto, nid yw yn iawn, ac yn fy ngolwg I trueni mawr yw, fod y fath bobl resynus yn cael eu llosgi a'u lladd: dylai pob un gael credu fel yr ewyllysio, Os yw yn credu ar gam, caiff gosp ddigon yn y tân tragwyddol yn uffern. Pam y dylent gael eu harteithio yn y bywyd hwn hefyd?—a chaniatau yn wastad nad oes yna ddim ond cred gamsyniol yn unig, ac nad ydynt yn afreolus hefyd ac yn gosod eu hunain mewn gwrthwynebiad i'r awdurdod wladol. Duw anwyl! mor gyflym y dichon dyn fyned ar gyfeiliorn a syrthio i rwyd y Diafol! Dylid ymladd yn erbyn y dynion hyn a'u gwrthwynebu â'r Ysgrythyr ac â Gair Duw: ychydig o ddaioni wnaiff tân."

Yn *Y Llenor* ceir y geiriau canlynol, y rhai nid ydynt ond adsain o'r hyn sydd wedi ei ddywedyd lawer gwaith o'r blaen gan rai a

ymddangosant yn fwy eu hawydd am wyngalchu cymmeriad John Calfin nag am ddylyn ffeithiau hanes ei fywyd:

"Dywedir iddo roddi Servetus i farwolaeth am heresi gableddus. Yr oedd Servetus wedi dianc rhag llawer tan; nid Calfin a'i condemniodd i farw, ac y mae'n debyg mai Calfin fuasai'r annhebycaf i wneyd hyny o holl arweinwyr Ewrob. Er hyny, credai fod Duw yn sicr o ddinystrio rhai a'u credoau'n groes i'r Beibl."

"Heresi gableddus" Micel Serfed oedd ei fod yn credu nad oedd y Beibl yn dysgu Trindod. Credai "mai y Duwdod oedd sylwedd pob peth; nad oedd y Drindod ond datguddiad o'r Achos Mawr Cyntaf yn y ffurf o'r goleuni a'r gair a gyflawnwyd o'r diwedd yn yr ymgnawdoliad; ac nad oedd yr Yspryd Glan ond yn unig y modd yn yr hwn oedd Duw yn cyflwyno ei hun i'w greaduriaid." Fe'i llosgwyd gan y Pabyddion ar ffurf eilun (*in effigy*), ond gan y Protestaniaid mewn gwir. Yr oedd el lyfr *(De Christianismi Restitutione)* a gyhoeddwyd yn 1553 wedi achosi cryn gynhwrf, a chychwynwyd erlidigaeth yn ei erbyn gan yr Archesgob, Cardinal de Tournon, fel y darfu iddo ffoi am nodded i Geneva, ond yn lle cael ei amddiffyn rhag y Pabyddion gan Calfin, profodd Calfin mor erlidgar a hwythau, a chyhuddodd ef o heresi o flaen yr awdurdodau, a llwyddodd i gael dedfryd marwolaeth wedi ei phasio yn ei erbyn. Fe'i llosgwyd yn fyw Hydref 25, 1553. "Calfin fuasai'r anhebycaf i wneyd hyny," meddai'r *Llenor*. Sicr yw na wnelai Luther byth ddim o'r fath, ac yn fy meddwl I, y mae'n fwy na all neb wneuthur i brofi nad oedd gan John Calfin law yn galonog yn y fusnes wael. Credai Serfed hyny ei hun. "Cedwir fi," meddai, "mewn caethiwed fel drwgweithredwr, ac erlynir fi gan John Calfin." Calfin a'i weision oedd ei brif erlynwyr ar y treial, a buont yn llwyddiannus ddigon. Dyma ddedfryd y barnwyr:—

"Yr ydym yn dy gondemnio di, Micel Serfed, i gael dy rwymo a'th gludo i'r lle a elwir Champel, yno i gael dy gylymu wrth bost a'th losgi yn fyw, gyda dy lyfrau, y rhai ysgrifenedig â'th law dy hun a'r rhai argraffedig, nes eu troi yn lludw; ac felly y cei derfynu dy ddyddiau, gan roddi esiampl i ereill a wnaent yn gyffelyb."

Derbyniodd Calfin ddiolch Melanchthon a'r eglwysi Swissaidd am y weithred. Mae'n wir fod Bucer a Farel ac ereill yn cytuno; ond ofer son mai Calfin oedd yr "annhebycaf." Yr oedd gan John Calfin gymmaint o awdurdod yn Geneva ag oedd gan y Pab yn Rhufain, a gallasai â gair ei rwystro, ond yn un o'i lythyron, mae yn ymffrostio mai ar ei gais ef y gwnaed Serfed yn garcharor. Ysgrifenodd Serfed at yr awdurdodau ddwy waith yn gofyn am drugaredd: "Yr wyf yn taer ddeisyf arnoch," meddai, peidiwch gwrthod i mi yr hyn ni wrthodech i'r Twrc, pan y ceisiaf am gyfiawnder ar eich dwylaw." Nid oedd dim trugaredd i fod. Yr oedd Calfin fel ereill yn llawenhau fod y cyfleusdra yn ei law i osod taw bythol ar ei wrthwynebydd. Er mor annhebygol yr ystyrir

ymddygiad Calfin, y mae llythyr etto ar glawr a ysgrifenwyd ganddo saith mlynedd yn flaenorol at ei gyfaill Farel. Ei ddyddiad yw Chwefror, 1547, ac y mae yn dangos yn bur amlwg beth oedd yspryd y dyn:

"Y mae Serfed wedi ysgrifenu ataf yn ddiweddar, ac ar yr un pryd wedi gyru i mi lyfr mawr yn llawn balchder a breuddwydion gwag. Dywed y caf yn y llyfr lawer o bethau rhagorol, a rhai na chlywyd am danynt yn flaenorol. Dywed y daw yma os caraf; ond yr wyf yn ymrwymo os dyfod wna, os bydd fy awdurdod I yn tycio dim, na chaiff byth ddianc oddiyma gyda'i fywyd;" neu yn ei eiriau ei hun: "Nam si venerit, modo valeat mea auctoritas, vivum exire nunquam patiar." Dyna, hyd y blewyn, yr yspryd ddarfu brofi'n farwolaeth i Micel Serfed. Nid oes modd dileu, na modd camsyniad ystyr y geiriau hyn. Gwyngalcher a fyner, Calfin gynneuodd y ffagodau. Pan erlidid ef ei hunan, credai mewn goddefgarwch. Ofer son am heresi gableddus Serfed, yr oedd Calfin yn heretic llawn cynddrwg yn ngolwg y Babaeth. A phwy sydd i benderfynu beth yw heresi? Os oedd Serfed yn defnyddio geiriau celyd, gellir cael eu cyffelyb yn ngweithiau Calfin. Ei ddyledswydd oedd caniatau yr un rhyddid i Serfed ag a hawliai iddo ei hunan.

"It is a heretic that makes the fire
Not he who burns in it."

Hydref 17, 1895. T.C.U.

NODYNAU GWASGAROG.

Y DRYSORFA AT GYNNORTHWYO Y BOBL IEUAINC.

Dymunaf am ran fechan o'r Ymofynydd er dwyn y drysorfa uchod i sylw ei ddarllenwyr. Mae dau ddyn ieuainc dan fy ngofal ar hyn o bryd yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth. Mae un o honynt eisoes wedi derbyn budd oddiwrth y drysorfa, a bydd raid i'r llall gael cynnorthwy yn fuan. Ar hyn o bryd, mae'r drysorfa yn wag, ac nid oes gobaith iddynt gael cynnorthwy pellach oddieithr i gyfeillion yr enwad alluogi'r swyddogion i wneyd hyny trwy anfon tanysgrifiadau i fewn yn fuan. Mae'r ddau ddyn ieuainc wedi bod dan fy ngofal bellach er's cryn amser, a da genyf allu dweyd eu bod yn teilyngu cynnorthwy. Dymunaf, gan hyny, ddwyn eu hachos gerbron darllenwyr Yr Ymofynydd, gan obeithio y gwel rhai o honynt eu ffordd yn glir i anfon eu tanysgrifiadau i swyddogion y drysorfa mor fuan ag y byddo modd. Yr ysgrifenydd yw y Parch. R. C. Jones, Llanbedr; a'r trysorydd yw Mrs. Evans, Taliesin House, Llanbedr.

Cribin, Tachwedd 14, 1895. D. Evans.

Y SYNIAD AM DDUW YN GWELLA.

Po bellaf yn ol yr awn, anmherffeithiaf, creulonaf, barbareiddiaf, tlotaf yw'r grefydd a gawn ; a dyna'n gywir fel y gallem ddysgwyl. Fel mae'r hil yn ymddadblygu, fel y mae yn dyfod yn ddoethach, fel y mae'r profiad cymdeithasol yn rhoddi iddo feddylddrychau moesol uwch a gwell, cawn fod y grefydd yn gwella. Daw syniad teilyngach ac ardderchocach am Dduw, meddylir am dano fel bod gwell a doethach. Y mae, hefyd, amgyffrediad ardderchocach am ddyn ; a chawn yr ymgais ar ran dyn i ddyfod i berthynas iawn â Duw yn fwy doeth, yn fwy dynol, ac yn well. Nid yw dynion, bellach, yn tybied y gallant foddio Duw trwy ladd creadur, neu trwy ladd un o'u cyd-ddynion, neu trwy losgi un o'u plant mewn ffwrnes, neu trwy daflu baban i fewn i ryw afon sanctaidd. Perthyna y syniadau creulawn a barbaraidd hyn i amserau neu oesau barbaraidd a chreulawn ; a gadewir hwy ar ol i'r graddau y byddo'r byd yn dyfod yn fwy doeth.

M.J.S.

Manion ac Hanesion.

PRIODASAU.

Hydref 31, yn Cribin, gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H., Green Park, a cher bron y Cofrestrydd, David Morgan, Moelfre, Llanbedr, ag Elizabeth Jenkins, Mynach Villa, Cribin.

Mae Dafydd a Liza yn awr yn yr iau,
Er cario baich bywyd yn ddiwyd eich dau ;
Pob llwyddiant fo iddynt, y naill fel y llall,
Yw'm didwyll ddymuniad o gariad diball.
—*Parch. Thomas Thomas, Y.H.*

Ymadael â'ch ammodau,—anwyliaid,
Na wneloch hyd angau ;
Gwedi'r oes a gado'r iau,
Ne' wedyn i'ch eneidiau.
—*Y Cofrestrydd.*

Oes iach heb achos ochain,
A bywyd rhwydd boed i'r rhai'n.
—*Dewi Hefin.*

Tachwedd 21, yn Capelgroes, gan y Parch. D. Evans, Cribin, a cher bron Mr. Titus Evans, y Cofrestrydd, John Thomas, Gwarcwm, a Dinah Jones, Ffynnonlas, Llanwnen.

Marwgofion.

Hydref 1, Benjamin Beynon, 30, Dumfries Street, Treherbert, yn 55 mlwydd oed. Mab ydoedd i'r Parch. David Beynon, St. Clears, Swydd Gaerfyrddin, yr hwn a gladdwyd tua'r flwyddyn '64. Bu ei dad yn weinidog gyda'r Bedyddwyr am rai blynyddau, ond daeth drosodd at yr enwad Undodaidd yr un pryd â Dafydd Griffiths, Llandebie, tad Jaci Griffiths, yr hwn a fu yn weinidog am flwyddi meithion yn Llandyfan ; y Parch. Mr. John, yr hwn a fu yn weinidog yn Nhwynyrodyn, Merthyr ; yn nghyd â Phillips, Blaentrafle, Rhydyparc. Ymddengys i dón Undodaidd ymdywallt dros Gymru y cyfnod hwnw. Ymddangosodd hanes Jaci Griffiths, gweinidog Llandyfan, yn nghyd â llwyddiant mawr yr enwad yn y plwyf y pryd hwnw, yn yr YMOFYNYDD tua dwy flynedd yn ol. Clywais fy nhad yn enwi rhai dwsinau a droisant oddiwrth y gwahanol enwadau at yr Undodiaid y pryd hwnw yn fy mhlwyf genedigol. Dyna Griffiths yr ysgolfeistr—rhifyddwr goreu'r Sir ; Deio'r Gof—dyn " trwm iawn " yn marn y bobl ; William Griffiths, gweinidog y Bedydd-

wŷr yn Llandyfan; fy nhadcu; yn nghyd ag wmbredd ereill y gallwn eu henwi. Bu yn rhyw fath o frwydro am oruchafiaeth ac yn "*survival of the fittest*" yn mhlith enwadau y plwyf nodedig hwn. Yr oedd perthynas agos i mi, yr hwn oedd wehydd, ac yn pregethu gyda'r Methodistiaid, yn elyn annghymmodlawn i'r "Dwyfundodiaid," a defnyddiai ei holl arabedd pwlpudyddol i brofi twyll yr heresi wenwynig. Dyma'r geiriau, meddai fy nhad, a glywai yn fynych gan fy nhadcu, a ddefnyddiai y perthynas hwn yn mhob pregeth:—"Bobol anwl! y mae crefydd y Dwyfundodiaid yn capso pobbeth. Y mae ganddynt y rhyfyg i ddweyd nas gall Duw fod yn Un ac yn Dri yr un pryd! Most y piti, weda I, eu bod yn gallu bod mor bendwp! Edrychwch yma," ac ymaflai â'i law yn llawes ei got, a gwnelai dri phlet ynddi," Dyma dri phlet mewn un dernyn o frethyn!" gwaeddai allan ar dop ei lais, "Beth ddywed y Sociniaid yn awr?" Wel, y mae yr hen dadau dewr hyn fuont mor ffyddlon i gydwybod a dyledswydd, a dyoddef eu herlid, wedi myn'd oddiwrth eu gwaith at eu gwobr, ac y mae ambell un o'u disgynyddion wedi derbyn mesur helaeth o'u ffyddlondeb, eu dewrder, a'u hyspryd, ac wedi, ac yn profi eu hunain yn addurn i'r enwad Un felly ydoedd gwrthddrych yr hanes hwn. Nis gwn fawr o hanes ei dad, oddieithr yr hyn a gofiaf oddiwrth *nursery tales* fy mabandod; ond os oedd yn medru deuparth o yspryd ei fab Benjamin, ei fetel, ei ddiffuantrwydd, a'i ffyddlondeb i egwyddorion ei enwad, yna yr oedd Dafydd Beynon o fudd a gwasanaeth i'w oes a'i genedlaeth. Dyn hynod oedd Mr. Benjamin Beynon. Nid oedd rhagrith yn yr un croen ag ef, na thwyll yn agos i'w galon, nac absen yn llychwino ei wefus bur. Y mae hyn yn ddweyd mawr, ond nid yw yn amgen nâ thystiolaeth y lluosog ffryndiau oeddynt wedi ei brofi. Os daw rhywun i Dreorci neu Dreherbert, holed pa fath ddyn ydoedd Benjamin Beynon, a chewch yn atebiad y geiriau canlynol;—

Sêl ei fynwes dros gyfiawnder
Fflachiai fel cleddyfau'r nef!

Pan adwaenais ef ar y cyntaf, nis gallaf ddweyd i mi ei hoffi. Ymddangosai i ddyn dyeithr dipyn yn swrth a diseremoni. Nid oedd iddo y wên hono ag yr ydwyf, ysgwaethyroedd, wedi ei gweled yn rhy fynych yn fy mywyd helbulus—gwên â dagr wedi ei chuddio ynddi. Na, dyn plaen, unplyg, *straightforward*, oedd fy nghyfaill Beynon, ac yn tynu un i'w garu fwyaf po fwyaf fuasai yn ei adnabod. Y mae cot y diamond yn arw; nid yw yn llefaru un broffwydoliaeth am y cyfoeth sydd odditano; a dyma ni yma yn Mhentre Rhondda, ar gychwyniad ein hachos yn y lle, wedi colli dyn mor rhagorol a hwn—dyn ag oeddwn yn ei garu â'm holl enaid. Caraswn allu byw bywyd cyffelyb iddo. Nid y sawl sydd â'r syniadau goreu am grefydd ydynt y sawl sydd yn gallu ei byw oreu ar bob amser. Collasom ddyn tebyg iddo ddechreu y flwyddyn, sef ein trysorydd, Mr. David Thomas, Bute Street. Dynion oeddynt y rhai hyn nad yn aml y ceir eu bath a gallaf ddweyd am bob un o honynt yn ngeiriau'r bardd—

"Gorchwyl hawdd i'm lleddfol awen a pharchedig, wylaidd wedd,
Fyddai cwynfan fel colomen uwch ei gyssegredig fedd."

Y mae ein cyfaill wedi gadael gweddw i alaru yn fawr ar ei ol, ond dim plant. Daeth tyrfa fawr a pharchus o bell ag agos i dalu y gymmwynas olaf i'w weddillion marwol, y rhai a ddaearwyd yn *Cemetery* Treorci. Yn y ty cyn cychwyn gweddiodd y Parch. Methusaleh Jones, Ebenezer, gweinidog yr Independiaid, yn brydferth ac yn doddedig iawn; yn y capel siaredais inau ychydig eiriau; ac ar lan y bedd siaradodd a gweddiodd y Parch. W. Griffiths, Ph.D., B.D., Pontypridd. "Na thristâwn fel rhai heb obaith."

IVOR DAVIES.

Hydref 12, yn 80 mlwydd oed, Mary, hoffus briod Thomas Thomas, gôf, Llwynrhydowen. Claddwyd yn Pantdefaid y Mercher canlynol. Cyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn y ty gan y cynweinidog T.T., a phregethwyd yn y capel gan y Parch. T. A. Thomas. Yr oedd yr ymadawedig yn fam i 13 neu 14 o blant, o'r rhai y mae yn fyw 4 o fechgyn a 4 o ferched, yn wasgaredig oddiwrth eu gilydd yn America, Lloegr, a Chymru—oll yn gysurus o ran eu hamgylchiadau. Un o'r plant, sef David Thomas, sydd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr. Bu am rai blynyddau yn gweinidogaethu yn Dalton-in-Furness. Y mae yn awr yn Pontypwl. Bu yr hen wraig hon yn ddiwyd ac ymdrechgar trwy ei bywyd, ac o'r

diwedd, heb unrhyw boen neillduol, bu farw o wendid teg. Gadawodd briod oedranus ar ol mewn hiraeth a galar mawr—fel aderyn y to unig ar ben y ty, yn nghyd a nifer lluosog o blant, y rhai ni annghofiant 'mo honi tra y byddont byw. Bydded iddynt oll ymgysuro yn yr Arglwydd, ac edrych yn y blaen â llygad ffydd i'r bywyd sydd y tu draw i'r bedd.

Hydref 16, yn 59 mlwydd oed, David Williams, Plasbach, Plwyf Llanbedr, Ceredigion. Claddwyd yn mynwent Eglwys Llanwnen. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. Mr. Morris, Ficer Llanwnen, a chynnorthwywyd yn y rhanau defosiynol gan y Parch. J. Davies, Alltplaca. Yr oedd yr angladd yn lluosog iawn, yn ddangoseg o'r parch a deimlid at yr ymadawedig gan y rhai a'i hadwaenent, ar gyfrif ei ddidwylledd a'i ddyngarwch. Nerth a gaffo'r weddw a'r amddifaid i alaru'n gymmedrol ar ol un mor ffyddlon.

Tachwedd 2, Margaret, merch anwyl a gobeithiol William a Mary Lewis, Cefnhafod, Llanwenog, yn chwech mlwydd oedd, o'r *croup*. Yr oedd yr un fechan yn un ffraeth, o sylw cryf, a chof rhyfeddol, o un mor ieuanc, yn syndod felly mewn perthynas a'r Ysgol Sul; ond nid i'w harbed er hyny. Claddwyd y Mawrth canlynol yn mynwent Capelgroes. Gweinyddwyd gan y Parchn. E. Phillips, gweinidog y Bedyddwyr; E. E. Jenkins, Capelgroes; a W. James, Aberduar.

Tachwedd 5, Elizabeth Anne, merch anwyl Jenkyn ac Elizabeth Jenkins, Blaenwaun-Ucha, Llanwnen, yn 5 mis oed, o'r *convulsion fits*. Hebryngwyd ei gweddillion y Gwener canlynol i fynwent Capelgroes, a gwasanaethwyd yn addas a theimladwy iawn ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Alltplaca.

" Marw wna'r baban er ei wên,
Marw wna'r ieuanc fel yr hen."

Tachwedd 6, yn hollol sydyn, yn 80 mlwydd oed, Griffith Jenkins, Pentrefelin, Nantcwnlle, Ceredigion. Mab hynaf y diweddar Jenkin Jenkins, Blaenpwyf, ydoedd, a brawd Amnon II. Buasai am flynyddau lawer yn un o golofnau achos y gwirionedd yn Rhydygwin, a pherthynai iddo lawer o'r grasusau hyny sydd yn cyfansoddi dyngarwr a gwladgarwr. Yr oedd yn ddiweddar wedi myned i gartrefu gyda'i ferch yn Penglogau; yno y bu farw, ac oddiyno yr hebryngwyd ef i dy ei hir gartref i ymyl ei briod yn mynwent Abermeurig y Sadwrn canlynol, yn nghanol arwyddion amlwg o barch a galar, gan dyrfa fawr iawn. Pregethwyd yn y ty, yn ol ei ddymuniad, gan y Parch. J. Davies, a gorphenwyd y gwasanaeth yn y capel a glan y bedd gan y Parch. Mr. Davies, Tynygwndwn. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

Tachwedd 10, yn dra sydyn, Timothy Davies, Hen-dy'r Neuadd, ger Llanwnen, yn 67 oed, a chladdwyd y Mercher canlynol yn Capelgroes. Pregethodd y cyn-weinidog, T. T., yn y capel, a chymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y gweinidog, y Parch. E. E. Jenkins, a Mr. Davies, Tancoed. Daeth tyrfa fawr yn nghyd i'w angladd o bell ac agos. Yr oedd yn dra adnabyddus yn y wlad o amgylch fel pen-saer Mr. Hughes o'r Neuaddfawr, ac yn ddyn diniwed a pharchus yn ei ardal. Gadawodd briod ac un mab mewn hiraeth ar ei ol. Efe a aeth, a hwythau a'i canlynant.

Tachwedd 24, yn dra annysgwyliadwy, Benjamin Jones, *stonecutter*, Llwynrhydowen, yn 66 oed, a chladdwyd y Sadwrn canlynol yn Pantdefaid, a thraddododd ei weinidog, y Parch. W. J Davies, y Llwyn, bregeth dra ragorol ar yr achlysur. Cafodd gynhebrwng lluosog, oblegyd yr oedd yn ddyn parchus a defnyddiol yn ei gymmydogaeth, ac yn adnabyddus, ar gyfrif ei alwedigaeth, i lawer y tu allan i'w gylch cymmydogaethol Yn mhen wythnos ar ei ol hebryngwyd ei briod, Mary Jones, i orwedd yn yr un bedd. Bu hi farw Mercher y 30, a chaddwyd y Sadwrn canlynol, yn 59 oed. Pregethwyd yn y capel gan ei hen weinidog, T.T., a chyflawnwyd y rhelyw o'r gwasanaeth gan weinidog presennol Pantdefaid, T. A. Thomas. Yr oedd iechyd y chwaer ymadawedig wedi gwaelu er ys blynyddau, ac ni feddyliai neb y byddai iddi hi oroesi ei phriod, ond felly y bu. Bu iddynt un plentyn, ond bu farw yn fuan wedi ei enedigaeth. Gadawodd Benjamin Jones un brawd a thair chwaer, a Mary Jones un chwaer ac amryw o frodyr i hiraethu ar eu hol, ond nid yn ddiobaith.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.